**CYFARFOD Y CYNGOR** **19eg MEDI 2018**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. **YMDDIHEURIADAU**

2. **SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNEDOL (WARD BRYNHEDYDD)**

   Ymhellach i gofnod rhif 34 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5ed Medi 2018, derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref.

3. **CYFLWYNIAD: GIDEONS INTERNATIONAL I'R MAER**

   Derbyn cynrychiolydd o Gideon's International (Cangen Clwyd), i gyflwyno copi o'r Ysgrythur i'r Maer.

4. **COFNODION**

   Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 18fed Gorffennaf 2018 | - | Rhifau Cofnod | 38 - 52 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 18fed Gorffennaf 2018 | - | Rhifau Cofnod | 13 - 15 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 5ed Medi 2018 | - | Rhifau Cofnod | 16 - 19 |

   Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 5ed Medi 2018 | - | Rhifau Cofnod | 32 - 48 |

5. **ADRODDIAD Y MAER**

   Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

6. **CYFLWYNIAD: PLEYDELLSMITHYMAN LIMITED: DIWEDDARIAD AR UWCHGYNLLUN CANOL TREF Y RHYL**

   Croesawu Ms Sarah Wheale i'r cyfarfod a derbyn cyflwyniad ar gynnydd Uwchgynllun Canol Tref y Rhyl a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.

7. **GOHEBIAETH: DEISEB STAD SPLASH POINT**

Derbyn yn ffurfiol ddeiseb (ar gael yn y cyfarfod) gan drigolion ardal Stad Splash Point yn gofyn am gefnogaeth i barth cyfyngu ar gyfer trigolion a chyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya ar gyfer y stad, a phenderfynu ar ymateb.

**8. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**9. BARN ARCHWILWYR ALLANOL AR DDATGANIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2017/18**

Derbyn ymateb archwiliwr allanol (copi i ddilyn) ar y datganiad blynyddol a'i gymeradwyo. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i lofnodi ar ran y cyngor.

**10. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**11. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**13. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL 2015**

Ymhellach i gofnod rhif 47 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Medi 2018, derbyn, diwygio a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Cyngor Tref (copi'n amgeedig) ar gydymffurfio gyda'i ddyletswydd dan y ddeddfwriaeth juchod.

**14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.